# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 30 Mehefin 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(276)

**Datganiad y Llywydd**

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gwnaeth y Llywydd ddatganiad i fynegi cydymdeimlad diffuant Cynulliad Cenedlaethol Cymru â theuluoedd a ffrindiau'r rhai a fu farw neu a gafodd eu hanafu yn yr ymosodiad terfysgol diweddar yn Nhiwnisia.

**Cwestiwn Brys**

Dechreuodd yr eitem am 13.30

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn dilyn y sylwadau cychwynnol a wnaeth y Prif Weinidog ar y digwddiadau trychinebus yn Nhiwnisia, a wnaiff ddatganiad llawn ar ei ddealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol?

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog**

Dechreuodd yr eitem am 13.38

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.35

## 3 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd: Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020 – y wybodaeth ddiweddaraf

Dechreuodd yr eitem am 14.48

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol - flwyddyn ers ei chyflwyno

Dechreuodd yr eitem am 15.32

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Donaldson

Dechreuodd yr eitem am 15.59

## 6 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Metro

Dechreuodd yr eitem am 16.46

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 mins)

Cytunwyd o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân.

## 7 Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015

Dechreuodd yr eitem am 17.31

**NDM5795 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Gorchmynion Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (Swyddog Awdurdodedig) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mehefin 2015.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015

Dechreuodd yr eitem am 17.31

**NDM5796 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gweithdrefnau) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mehefin 2015.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 9 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015

Dechreuodd yr eitem am 17.41

**Gohiriwyd y bleidlais ar y Cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5797 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Mehefin 2015.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 12 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd y Cynnig.**

## 10 Dadl ar Adroddiad Gweinidogion Cymru ar gydymffurfiaeth â’r ddyletswydd o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

Dechreuodd yr eitem am 17.44

**NDM5798 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**1. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'r cyhoedd yn gyffredinol.

**Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5798 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi Adroddiad Gweinidogion Cymru ar Gydymffurfiaeth â'r ddyletswydd o dan adran 1 o Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud mwy i hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'r cyhoedd yn gyffredinol.

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**11 Cyfnod pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem ar 18.21

Daeth y cyfarfod i ben am 18.21

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 1 Gorffennaf 2015**